University of South Wales
Prifysgol De Cymru

RHEOLIADAU GRADDAU YMCHWIL

2024/2025

Ysgol Graddedigion

Teitl: Rheoliadau Graddau Ymchwil					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad Adolygu**	**Awdur**	**Cymeradwywyd gan a Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
4.0	Medi 2024	Cyhoeddiad Cyntaf	Elaine Huntley	Bwrdd Academaidd a Phwyllgor Sicrhau Ansawdd Gorffenaf 2024	Mai 2025

Mae'r Rheoliadau hyn ar gael yn Saesneg. These regulations are available in English.

Cynnwys

1.	**Dyfarniadau Gradd Ymchwil Ôl-raddedig**	**6**
1.1	Egwyddorion cyffredinol	6
	- *Pwyllgor Graddau Ymchwil*	*7*
	- *Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran*	*7*
	- *Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran*	*7*
	- *Bwrdd Cynnydd Cyfadran*	*7*
	- *Ysgol Graddedigion*	*7*
1.2	Dyfarniadau gradd ymchwil ôl-raddedig a roddwyd gan y Brifysgol	8
1.3	Disgrifyddion Cymwysterau	8
	- *Doethuriaeth*	*8*
	- *Meistr*	*8*
	- *Diploma*	*9*
1.4	Graddau ymchwil drwy draethawd ymchwil	9
1.5	Graddau ymchwil yn cynnwys gwaith creadigol	9
1.6	PhD drwy gyhoeddiad	9
1.7	PhD drwy bortffolio	10
1.8	Doethuriaeth broffesiynol	11
1.9	Cydweithredu â chyrff eraill	11
2.	**Dethol a Derbyn**	**12**
2.1	Egwyddorion dethol	12
2.2	Gofynion mynediad cyffredinol	13
	- *Gofynion ychwanegol ar gyfer Doethuriaethau Proffesiynol*	*13*
	- *Gofynion ychwanegol ar gyfer PhD drwy gyhoeddiad*	*13*
	- *Gofynion ychwanegol ar gyfer PhD drwy bortffolio*	*14*
	- *Gofynion ychwanegol ar gyfer mynediad uniongyrchol i PhD*	*14*
	- *Gofynion trosglwyddo o Brifysgol arall*	*14*
2.3	Gofynion Iaith Saesneg	15
2.4	Ystyried ceisiadau	15

3.	**Cofrestru Ymgeisydd Ymchwil Ôl-raddedig a Chofrestru prosiect**	**16**
3.1	Cofrestru cychwynnol a chofrestru prosiect	16
3.2	Sefydlu ac ymgyfarwyddo	17
3.3	Cyfnod cofrestru'r prosiect	17
	- *Statws 'Ysgrifennu'*	*18*
3.4	Newidiadau i gofrestru a chofrestru prosiect	19
	- *Toriad ar Astudio*	*19*
	- *Estyniad i gofrestru prosiect*	*20*
	- *Cais i dynnu'n ôl o astudio*	*20*
3.5	Ymgysylltu â myfyrwyr	20
	- *Amser a dreuliwyd yn gwneud ymchwil*	*20*
	- *Presenoldeb disgwyliedig*	*20*
	- *Casglu data i ffwrdd o'r Brifysgol*	*21*
	- *Absenoldeb awdurdodedig*	*21*
	- *Gwyliau blynyddol*	*21*
	- *Myfyrwyr ymchwil sy'n addysgu*	*22*
3.6	Terfynu astudiaethau	22
	- *Rhesymau dros derfynu astudiaethau*	*22*
	- *Lle mae ymgeisydd wedi mynd yn anweithgar*	*23*
3.7	Gofynion eraill ac amodau cofrestru a chofrestru prosiectau	23
4.	**Goruchwylio**	**25**
4.1	Timau goruchwylio	25
	- *Cyfansoddiad*	*25*
	- *Cymhwyster i oruchwylio*	*25*
	- *Cyfarwyddwr Astudiaethau*	*25*
4.2	Capasiti goruchwylio	26
4.3	Y broses goruchwylio	27
5.	**Trefniadau Adolygu Dilyniant**	**28**
5.1	Cyffredinol	28
5.2	Adolygiad cynnydd chwe mis	28

5.3 Adolygiad cynnydd blynyddol 28

- *Canlyniadau adolygiad cynnydd blynyddol* *29*
- *Apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Cynnydd* *29*

6. Trosglwyddo o MPhil i PhD **30**

6.1 Cais i drosglwyddo o MPhil i PhD 30

6.2 Asesiad trosglwyddo o MPhil i PhD 30

- *Asesiad gan arbenigwr pwnc annibynnol* *30*
- *Penodi arbenigwr pwnc annibynnol* *30*
- *Canlyniadau posibl yr asesiad trosglwyddo* *31*
- *Apelio yn erbyn penderfyniad y FRDC ar drosglwyddo* *31*

7. Y Traethawd Ymchwil **32**

7.1 Gofynion ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi 32

7.2 Uchafswm terfynau geiriau 32

- *Ar gyfer cyflwyniadau drwy lwybr traethawd ymchwil* *32*
- *Ar gyfer cyflwyniadau yn cynnwys gweithfeydd creadigol* *33*
- *Ar gyfer PhD drwy gyhoeddiad a PhD drwy bortffolio* *33*

7.3 Y cyflwyniad a diwyg y cyflwyniad 33

- *Gofynion ychwanegol ar gyfer copïau printiedig i arholwyr* *35*

7.4 Fersiwn terfynol y traethawd ymchwil 36

7.5 Ceisiadau cyfrinachedd a mynediad cyfyngedig 36

8. Arholi **38**

8.1 Egwyddorion asesu 38

8.2 Ffurf asesu 38

8.3 Y Panel Arholi 38

- *Penodi* *38*
- *Cyfansoddiad* *39*
- *Cadeirydd y Panel Arholi* *39*
- *Arholwyr allanol* *40*
- *Arholwyr mewnol* *40*
- *Arholwyr ar gyfer staff* *41*
- *Ystyriaethau eraill* *41*

8.4 Yr Arholiad 41

- *Arholi'r traethawd ymchwil* *41*
- *Arholiad viva voce* *42*
- *Canlyniadau'r arholiad* *43*
- *Lle na all Arholwyr gyrraedd consensws* *45*
- *Ailgyflwyno ac ailarholi* *45*
- *Camymddwyn academaidd tybiedig yng nghyfnod yr arholiad* *46*
- *Apelio yn erbyn penderfyniad y RDC ar ganlyniad yr arholiad* *46*

8.5 Dyfarniadau ar ôl marwolaeth 46

1. Dyfarniadau Gradd Ymchwil Ôl-raddedig

1.1 Egwyddorion cyffredinol

1.1.1 Rheoliadau Graddau Ymchwil Prifysgol De Cymru yw'r brif ffordd y mae'r Brifysgol yn sicrhau cysondeb yn safonau academaidd ei dyfarniadau graddau ymchwil ôl-raddedig.

1.1.2 Mae ymgeisydd yn fyfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen gradd ymchwil ôl-raddedig gymeradwy. Disgwylir i'r holl ymgeiswyr a'r staff perthnasol fod yn gyfarwydd â'r rheoliadau hyn a chydymffurfio â nhw.

1.1.3 Mae'r rheoliadau yn ymgorffori arfer da a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ddarparu graddau ymchwil ôl-raddedig ac fe'u hysbysir gan God Ansawdd, Cyngor a Chanllawiau Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn y DU: Graddau Ymchwil (Tachwedd 2018) a chanllawiau gan Ymchwil ac Arloesi y DU.

1.1.4 Adolygir y rheoliadau o bryd i'w gilydd, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn unol â disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'u bod yn debyg o ran safon gyda'r sector yn fwy cyffredinol. Caiff safonau academaidd dyfarniadau graddau ymchwil ôl-raddedig eu sicrhau ymhellach drwy benodi arholwr allanol annibynnol gydag arbenigedd pwnc addas ar gyfer pob ymgeisydd.

1.1.5 Sicrheir safonau academaidd dyfarniadau graddau ymchwil ôl-raddedig ymhellach trwy benodi arholwr allanol annibynnol ag arbenigedd pwnc addas ar gyfer pob ymgeisydd.

1.1.6 Yn achos rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol, rhoddir copïau i baneli dilysu o ddisgrifyddion cymwysterau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer graddau Doethurol a'u *Datganiad Nodweddion*: *Gradd Doethurol* (Chwefror 2020). Arholir yr elfen a addysgir o raglenni doethuriaeth broffesiynol gan arholwyr allanol annibynnol gydag arbenigedd pwnc perthnasol.

1.1.7 Gellir cynnig rhaglenni ymchwil mewn unrhyw faes astudio lle mae gan y Brifysgol allu ac arbenigedd goruchwylio. Mae hyn yn amodol ar y gofyniad bod y rhaglen arfaethedig yn gallu arwain at ymchwil ysgolheigaidd a'i chyflwyno i'w hasesu gan arholwyr priodol.

1.1.8 Bydd y cyflwyniad i'w arholi fel arfer ar ffurf traethawd ymchwil ysgrifenedig, ac eithrio yn achos PhD a allai gymryd ffurfiau amgen o gyflwyno.

1.1.9. Gall y Brifysgol derfynu ymgeisydd am beidio â chydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a/neu fethu â gwneud cynnydd academaidd boddhaol ar gam adolygu cynnydd neu ar y cam trosglwyddo.

Pwyllgor Graddau Ymchwil (RDC)

1.1.10 Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil (RDC), ar ran y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesedd a Phwyllgor Sicrhau Ansawdd y Brifysgol, yn gyfrifol am ansawdd a safonau graddau ymchwil ôl-raddedig yn y brifysgol. Bydd y RDC yn sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r Rheoliadau Graddau Ymchwil ac yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol.

Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC)

1.1.11 Mae pob cyfadran yn gweithredu'r un fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig. Mae Pwyllgorau Graddau Ymchwil Cyfadran (FRDCs) yn gweithredu ar lefel Cyfadran ac yn ystyried derbyn, cofrestru a dilyniant ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig, ym mhob cyfadran. Bydd FRDCs yn sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r Rheoliadau Graddau Ymchwil ac yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol.

Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran (FREC)

1.1.12 Mae gan bob Cyfadran Bwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran (FREC). Rhan o'i gylch gwaith yw ystyried a chymeradwyo moeseg ar gyfer prosiectau ymchwil ôl-raddedig y nodwyd eu bod yn risg uchel yn unol â *Fframwaith Moeseg y Brifysgol*.

Bwrdd Cynnydd Cyfadran

1.1.13 Mae gan bob Cyfadran Fwrdd Cynnydd ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig sy'n ystyried Adolygiadau Cynnydd Blynyddol (cyfeiriwch at adran 5). Bydd y Bwrdd Cynnydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a yw ymgeisydd wedi gwneud cynnydd digonol i barhau ar ei radd ymchwil ôl-raddedig.

Ysgol Graddedigion

1.1.14 Mae'r Ysgol Graddedigion yn cefnogi'r pwyllgorau a byrddau'r Brifysgol a enwir uchod ac yn cydlynu calendr o ddigwyddiadau hyfforddiant sgiliau ar gyfer ymgeiswyr a staff cysylltiedig.

1.2 Dyfarniadau gradd ymchwil ôl-raddedig a roddwyd gan y Brifysgol

1.2.1 Gall y Brifysgol ddyfarnu'r graddau ymchwil ôl-raddedig canlynol:

- Doethur mewn Athroniaeth (PhD)
- Doethur mewn Gweinyddiaeth Busnes (DBA)
- Doethur mewn Seicoleg (DPsych)
- Meistr mewn Athroniaeth
- Gradd Meistr drwy Ymchwil (MA neu MSc drwy Ymchwil)
- Diploma Ymchwil (RDip) (dyfarniad gadael yn unig)

1.2.2 Ni ellir ond dyfarnu Diploma Ymchwil, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Graddau Ymchwil, i ymgeisydd a arholir ar gyfer gradd ymchwil ar lefel Meistr neu Ddoethuriaeth, nad yw wedi dangos y meini prawf sy'n ofynnol er mwyn i'r dyfarniad gael ei roi.

1.3 Disgrifyddion Cymwysterau

Doethuriaeth

1.3.1 Dyfernir gradd ar lefel Doethuriaeth (PhD neu Ddoethuriaeth Broffesiynol) i ymgeisydd sydd wedi dangos bod gwybodaeth newydd wedi'i chreu a'i dehongli, drwy waith ymchwil gwreiddiol neu ysgolheictod uwch arall, o ansawdd i fodloni adolygiadau gan gymheiriaid, ymestyn tu blaen y ddisgyblaeth, a haeddu cyhoeddiad. Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth fanwl o ddulliau ymchwil priodol a'i gymhwysiad i'r maes a ddewiswyd, ac yn cyflwyno ac yn amddiffyn traethawd ymchwil o safon lenyddol briodol (neu ffurf amgen o gyflwyno lle bo'n briodol), drwy arholiad viva voce i fodlonrwydd arholwyr.

Meistr

1.3.2 Dyfernir gradd ymchwil ar lefel Meistr (MPhil neu MA/MSc drwy Ymchwil) i ymgeisydd sydd wedi ymchwilio a gwerthuso pwnc cymeradwy yn feirniadol ac wedi dangos gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth. Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth fanwl o ddulliau ymchwil priodol a'i gymhwysiad i'r maes a ddewiswyd, ac yn cyflwyno ac yn amddiffyn traethawd ymchwil o safon lenyddol briodol (neu ffurf amgen o gyflwyno lle bo'n briodol), drwy arholiad viva voce i fodlonrwydd arholwyr.

Mae cwmpas a dyfnder yr astudiaeth ar gyfer MPhil yn fwy na graddau MA / MSc drwy Ymchwil, fel y nodir gan y cyfnod cofrestru prosiectau (cyfeiriwch at adran 3.3) a hyd traethawd ymchwil disgwyliedig (adran 7.2).

Diploma

1.3.3 Gellir dyfarnu diploma ymchwil i ymgeisydd sydd wedi ymchwilio'n feirniadol i bwnc cymeradwy a'i werthuso. Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil priodol, a'i gymhwysiad i'r maes a ddewiswyd, ac yn cyflwyno ac yn amddiffyn traethawd ymchwil o safon lenyddol briodol (neu ddull cyflwyno amgen fel y bo'n briodol), drwy arholiad viva voce i fodlonrwydd arholwyr.

Gellir dyfarnu diploma ymchwil yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Graddau Ymchwil i'r ymgeiswyr hynny yn unig a arholwyd ar gyfer gradd ymchwil ar lefel Meistr neu Ddoethuriaeth nad ydynt wedi dangos y meini prawf i roddi'r dyfarniad.

1.4 Graddau ymchwil drwy draethawd ymchwil

1.4.1 Gellir dyfarnu gradd ymchwil i ymgeisydd sy'n cyflwyno traethawd ymchwil yn llwyddiannus mewn rhaglen astudio gymeradwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarniad gradd ymchwil (gweler adran 1.3).

1.5 Graddau ymchwil yn cynnwys gwaith creadigol

1.5.1 Gall ymgeisydd wneud gwaith ymchwil lle mae ei waith creadigol ei hun, neu baratoad argraffiad ysgolheigaidd o waith creadigol pobl eraill, yn ffurfio rhan o'u prosiect ymchwil cofrestredig. Rhaid nodi hyn yn glir yn y cynnig prosiect a'i gymeradwyo gan FRDC.

1.5.2 Gall y cyflwyniad terfynol gynnwys gweithiau gwreiddiol yn ogystal â'r traethawd ymchwil, neu fel rhan o'r portffolio (yn achos PhD yn ôl llwybr portffolio) (cyfeiriwch at adran 1.7). Gall y gwaith creadigol gynnwys, er enghraifft: gwaith ffuglen, gwaith cerddorol neu waith coreograffig, dyluniadau, dyfeisiadau a chynhyrchion, ffilm fer, arddangosfa o waith, gosod neu arteffactau gwreiddiol eraill, neu enghreifftiau o waith creadigol.

1.5.3 Rhaid i unrhyw waith creadigol a gaiff ei gynnwys gael ei gyflwyno'n glir mewn perthynas â'r cyflwyniad yn ei gyfanrwydd a'i osod yn ei gyd-destun damcaniaethol, hanesyddol, beirniadol neu ddylunio perthnasol.

1.6 PhD drwy gyhoeddiad

1.6.1 Gellir rhoi dyfarniad PhD i ymgeisydd sy'n cyflwyno'n llwyddiannus gorff cymeradwy o waith cyhoeddedig a adolygwyd gan gymheiriaid (sy'n dangos awduraeth sylweddol gan yr ymgeisydd) a throsolwg beirniadol, a gymerir gyda'i gilydd, i fodloni'r meini prawf ar gyfer doethuriaeth (gweler rheoliad 1.3.1).

1.6.2 Fel arfer bydd y corff cymeradwy o waith cyhoeddedig (gweler rheoliad 2.2.5) yn cyfateb i chwe erthygl cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid, a gall gynnwys penodau ar lyfrau a monograffau. Ffurfir nifer y penodau llyfr neu fonograffau a ystyrir yn cyfateb i chwe erthygl yn y cyfnodolyn ar sail pwnc.

Enghreifftiau o ddeunyddiau sy'n dderbyniol ar gyfer cyflwyno Cyhoeddiad

Papurau cyfnodolyn wedi'u hadolygu gan gymheiriaid	Llyfrau
Monograffau	Trafodion cynhadledd
Penodau Llyfr	

1.6.3 Bydd y corff gwaith cyhoeddedig yn gyflawn adeg cofrestru.

1.7 PhD drwy bortffolio

1.7.1 Gellir rhoi dyfarniad PhD i ymgeisydd sy'n cyflwyno uchafswm o dri phrosiect yn llwyddiannus a'u hallbynnau cysylltiedig, sy'n gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, a/neu sy'n deillio o ymchwiliad empirig neu gysyniadol a throsolwg beirniadol, sydd, gyda'i gilydd, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer doethuriaeth (gweler rheoliad 1.3.1).

1.7.2 Gall allbynnau'r prosiect fod ar sawl ffurf. Gellir cynnwys cyhoeddiadau ond os na phriodolir hwy e.e. adroddiadau swyddogol, cyhoeddiadau cwmni, rhaid cyflwyno datganiad ar lefel uwch reolwyr sy'n cadarnhau natur ac arwyddocâd cyfraniad yr ymgeisydd i'r gwaith.

Enghreifftiau o ddeunyddiau sy'n dderbyniol ar gyfer cyflwyno Portffolio

Adroddiadau prosiect / rhaglen	Arddangosfeydd / cynyrchiadau / arteffactau
Deunyddiau prosiect / rhaglen	
Adborth gan noddwyr prosiect	CD / DVD / fideo / cyflwyniadau ffilm

Llyfrau / penodau / papurau cyfnodolion cyhoeddedig	Rhaglenni meddalwedd
Trafodion cynhadledd	Pecynnau amlgyfrwng
Patentau	Deunyddiau dylunio
Arolygon	Mapiau

1.7.3 Cwblheir y rhan fwyaf o brosiectau ac allbynnau cysylltiedig ar adeg cofrestru.

1.8 Doethuriaeth broffesiynol (DBA a DPsych)

1.8.1 Gellir dyfarnu Doethuriaeth Broffesiynol i ymgeisydd y mae ei raglen ymchwil gymeradwy yn berthnasol ac yn cael ei chymhwyso i faes diffiniedig o ymarfer proffesiynol, sy'n cynnwys cwblhau'n llwyddiannus yr elfennau a addysgir ar lefel uwch, a chyflwyno traethawd ymchwil yn llwyddiannus sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarniad ar lefel doethuriaeth (gweler rheoliad 1.3.1).

1.8.2 Bydd yr elfen a addysgir o raglen Doethuriaeth Broffesiynol yn cyfateb i 240 o gredydau ac yn dod o dan y *Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir*.

1.9 Cydweithirediad â chyrff eraill

1.9.1 Mae'r Brifysgol yn annog cydweithrediad â chyrff allanol e.e. sefydliadau diwydiannol, llywodraethol, masnachol, proffesiynol neu ymchwil, at ddibenion ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau gradd ymchwil ôl-raddedig. Bydd partneriaeth gydweithredol ffurfiol yn cynnwys mewnbwn arbenigol i'r prosiect a bydd yn cael ei lywodraethu gan drefniadau cytundebol rhwng y Brifysgol a'r partner allanol. Gall yr olaf hefyd gyfrannu'n ariannol a darparu mynediad at gyfleusterau, data neu ddeunyddiau drwy drefniant ariannol neu mewn da. Bydd enw'r partner allanol yn ymddangos ar draethawd ymchwil a thystysgrif gradd yr ymgeisydd.

1.9.2 Gall cynrychiolydd o'r partner allanol gael ei benodi'n gynghorydd allanol gan y FRDC.

2. Dethol a Derbyn

2.1 Egwyddorion dethol

2.1.1 Bydd y Brifysgol yn derbyn ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig yn seiliedig ar yr egwyddorion eang canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn cwrdd â gofynion mynediad y Brifysgol;
- Dilysrwydd y cynnig ymchwil;
- Mae'r ymchwil arfaethedig yn cyd-fynd â diddordebau ymchwil y Gyfadran a / neu'r Brifysgol a gellir darparu goruchwyliaeth briodol;
- Disgwyliad rhesymol y bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus o fewn yr amserlen ofynnol;
- Yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cwblhau'n amserol ac yn llwyddiannus a disgwylir iddynt barhau i fodoli trwy gydol y prosiect;
- Mae potensial i gyfrannu at wybodaeth lle bo hynny'n briodol;
- Cyfle cyfartal i bob ymgeisydd.

2.1.3 Bydd cymeradwyaeth FRDC yn cael ei llywio gan ddangosyddion gwrthrychol yn cynnwys gallu a hanes gyrfa dda y goruchwylwyr arfaethedig, e.e. nifer y rhai sydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus; amseroedd cwblhau; gwaith goruchwylio, addysgu a gweinyddol presennol; mynychu hyfforddiant goruchwylio. Mae hon yn rhestr ddangosol ond nid yw'n hollgynhwysol.

2.1.4 Pan fydd ymgeisydd yn bwriadu astudio o bell, naill ai yn y DU neu'r tu allan iddi, rhaid i'r FRDC fod yn sicr:

- Bydd yr ymgeisydd yn cael defnyddio'r cyfleusterau angenrheidiol yn ei leoliad i'w alluogi i gwblhau'n llwyddiannus ac ar amser.
- Bydd yr ymgeisydd yn cael mynediad rheolaidd a chyson i'w dîm goruchwylio a all gynnwys cyswllt wyneb yn wyneb, e-bost a dros y ffôn.

2.1.5 Pan fo prosiect arfaethedig ymgeisydd yn rhan o brosiect grŵp cydwithredol, rhaid i'r FRDC fod yn sicr bod cyfraniad unigol yr ymgeisydd yn (1) gwahaniaethu at ddibenion asesu ac (2) yn briodol ar gyfer yr ymchwil ôl-raddedig y ceisir dyfarniad ar ei gyfer. Rhaid i'r cais nodi'n glir bob cyfraniad unigol a'i berthynas â'r prosiect grŵp.

2.1.6 Pan fo prosiect arfaethedig ymgeisydd yn rhan o ddarn o waith ymchwil a ariennir, mae'n rhaid i'r FRDC fod yn sicr nad yw'r telerau ac amodau ariannu yn atal yr ymgeisydd rhag cyflawni amcanion a gofynion y dyfarniad ymchwil ôl-raddedig.

2.2 Gofynion mynediad cyffredinol

2.2.1 Fel arfer, bydd disgwyl i ymgeiswyr ar gyfer y radd Meistr drwy ymchwil (MA neu MSc drwy Ymchwil) feddu ar radd anrhydedd 2:1 y DU (neu gymhwyster o safon gymaradwy, os y tu allan i'r DU) mewn pwnc perthnasol.

2.2.2 Fel arfer, bydd disgwyl i ymgeiswyr ar gyfer MPhil, gan gynnwys MPhil gyda phosibilrwydd o drosglwyddo neu uwchraddio i PhD (gweler rheoliad 3.1.4), PhD neu raglenni doethuriaeth broffesiynol, feddu ar radd anrhydedd 2:1 y DU neu uwch, neu gymhwyster Meistr yn y DU (neu gymhwyster o safon gymaradwy, os yw y tu allan i'r DU) mewn pwnc perthnasol.

2.2.3 Os yw ymgeisydd yn meddu ar gymwysterau heblaw'r rhai a amlinellir yn rheoliadau 2.2.1 a 2.2.2, rhaid sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad blaenorol yr ymgeisydd yn rhoi disgwyliad rhesymol iddo gael ei gwblhau'n brydlon ac yn llwyddiannus.

Gofynion ychwanegol ar gyfer Doethuriaethau Proffesiynol (DBA a DPsych)

2.2.4 Bydd disgwyl hefyd i ymgeiswyr am raglen doethuriaeth broffesiynol fod â phrofiad o ymarfer proffesiynol perthnasol, mynediad i gyd-destun proffesiynol addas i gynnal eu hymchwil, ac unrhyw gymwysterau sy'n ofynnol gan raglen benodol.

Gofynion ychwanegol ar gyfer PhD drwy gyhoeddiad

2.2.5 Fel arfer, bydd ymgeiswyr PhD drwy gyhoeddiad yn gofyn am chwe erthygl cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid, neu benodau llyfrau cyfatebol neu fonograffau, fel awdur unigol neu awdur cyntaf (gweler adran 1.6). Wrth gymeradwyo'r llwybr astudio hwn, rhaid i' FRDC fod yn fodlon y bydd y corff gwaith arfaethedig yn caniatáu ysgrifennu naratif addas yn arddangos gwreiddioldeb yn y maes.

2.2.6 Mae ceisiadau am PhD drwy'r llwybr Cyhoeddiad yn gyfyngedig i aelodau staff y gorffennol a'r presennol, alumni ac ymgeiswyr sydd â chysylltiad cryf â'r Brifysgol.

Gofynion ychwanegol ar gyfer PhD drwy bortffolio

2.2.7 Mae ymgeiswyr ar gyfer PhD drwy bortffolio yn gofyn am bortffolio o waith, tri phrosiect fel arfer a'u hallbynnau cysylltiedig, sy'n gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, a/neu sy'n deillio o ymchwiliad empirig neu gysyniadol (gweler adran 1.7). Wrth gymeradwyo'r llwybr astudio hwn, rhaid i'r FRDC fod yn fodlon y bydd y corff gwaith arfaethedig yn caniatáu ysgrifennu naratif addas yn arddangos gwreiddioldeb yn y maes.

Gofynion ychwanegol ar gyfer mynediad uniongyrchol i PhD (yn ôl llwybr traethawd ymchwil)

2.2.8 Gellir ystyried ceisiadau i astudio am PhD drwy fynediad uniongyrchol (heb yr angen i gofrestru ar gyfer rhaglen MPhil/PhD o dan reoliad 3.1.4) os oes gan ymgeisydd naill ai:

1) Cymhwyster Meistr y DU (neu gymhwyster o safon gymaradwy, os y tu allan i'r DU) gydag elfen ymchwil sylweddol, yn yr un maes disgyblaeth â'r ymchwil arfaethedig. Bydd y radd Meistr wedi cynnwys hyfforddiant mewn ymchwil a gweithredu prosiect ymchwil; *neu*

2) Ymchwil sylweddol a/neu brofiad proffesiynol yn yr un maes disgyblaeth â'r ymchwil arfaethedig, sydd wedi arwain at waith cyhoeddedig, adroddiadau ysgrifenedig neu dystiolaeth briodol arall o gyflawniad.

Gofynion trosglwyddo o Brifysgol arall

2.2.9 Pan fydd ymgeisydd wedi cofrestru ar gyfer gradd ymchwil mewn man arall ac yn gymwys i drosglwyddo ei gofrestriad a chofrestriad y prosiect i'r Brifysgol, rhaid i'w gais ddangos sut y byddant yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gwaith a gyflwynir yn y traethawd ymchwil yn waith ymchwil a oruchwylir gan aelod staff yn y Brifysgol.

2.2.10

Pan fydd ymgeisydd sydd wedi cofrestru ar gyfer gradd ymchwil mewn man arall yn gwneud cais i drosglwyddo ei gofrestriad a chofrestriad y prosiect i'r Brifysgol, rhaid i'r FRDC fod yn sicr bod sefydliad presennol yr ymgeisydd (1) yn cymeradwyo'r trosglwyddiad, (2) yn cadarnhau dyddiadau cofrestru'r ymgeisydd, a (3) cadarnhau bod cynnydd yr ymgeisydd yn ystod ei astudiaethau wedi bod yn foddhaol.

2.3 Gofynion Iaith Saesneg

2.3.1 Os nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf i'r ymgeisydd, rhaid iddynt ddangos yr isafswm gofynion o ran hyfedredd yn y Saesneg, fel y'u cyhoeddwyd gan y brifysgol.

2.4 Ystyried ceisiadau

2.4.1 Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cais cyflawn a'r dogfennau ategol angenrheidiol, yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol.

2.4.2 Caiff pob cais a chynnig ymchwil ei adolygu a chaiff moeseg ei ystyried, yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol.

2.4.3 Caiff ceisiadau eu hystyried yn unol â gofynion mynediad y Brifysgol a'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn adran 2.1.1.

2.4.4 Rhaid i'r cynnig ymchwil fod yn gallu arwain at waith ysgolheigaidd yr ystyrir ei fod yn briodol i'r rhaglen astudio.

2.4.5 Lle mae'r ymchwil arfaethedig yn cynnwys naill ai cynnal ymchwil neu gasglu data dramor, neu risg bosibl i enw da'r Brifysgol, mae angen cymeradwyaeth ragarweiniol ar lefel Prifysgol yn unol â gweithdrefnau llywodraethu ymchwil cyhoeddedig y Brifysgol.

2.4.6 Caiff ymgeiswyr eu cyfweld a cheisiadau eu cymeradwyo gan y FRDC cyn derbyn.

2.4.7 Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cynnig ffurfiol, gyda thelerau ac amodau astudio, a Chyfarwyddwr Astudiaethau a enwir.

2.4.8 Fel rheol, cynigir lle i ymgeiswyr llwyddiannus am PhD (yn ôl llwybr traethawd ymchwil) ar raglen MPhil / PhD (MPhil gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo i PhD) yn unol â rheoliad 3.1.4 oni bai eu bod yn cwrdd â'r gofynion ychwanegol ar gyfer mynediad uniongyrchol i PhD a bennir yn 2.2.8.

3. Cofrestru Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-raddedig a Chofrestru prosiectau

3.1 Cofrestru cychwynnol a chofrestru prosiectau

3.1.1 Mae'n ofynnol i ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig gofrestru fel myfyriwr y Brifysgol a thalu ffioedd priodol, fel y pennwyd gan y Brifysgol.

3.1.2 Bydd ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig yn cofrestru ar un o dri phwynt mynediad sefydlog yn ystod y flwyddyn academaidd; naill ai ym mis Hydref, mis Ionawr neu fis Ebrill.

3.1.3 Gall ymgeisydd gofrestru i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Pan fo ymgeisydd yn dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i FRDC fod yn fodlon y gellir trefnu goruchwyliaeth addas.

3.1.4 Bydd ymgeisydd ar gyfer y dyfarniad PhD fel arfer yn cofrestru ar raglen MPhil/PhD i ddechrau h.y. MPhil gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo neu uwchraddio i astudio ar lefel doethuriaeth (gweler adran 6). Mae'n bosibl y bydd rhai ymgeiswyr wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn fel yn rheoliad 2.2.8.

3.1.5 Gall y FRDC ganiatáu cofrestru ymgeisydd sy'n astudio cwrs arall ar yr amod bod y (1) cwrs presennol a/neu'r radd ymchwil yn rhan-amser *ac* (2) ym marn FRDC, ni fydd y cofrestriad deuol yn effeithio ar gwblhau'r radd ymchwil.

3.1.6 Yn ogystal â chofrestru, rhaid cofrestru'r prosiect ymchwil ôl-raddedig. Rhaid i bob cofrestriad prosiect newydd, ac unrhyw newidiadau dilynol, gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC).

3.1.7 Bydd y cais i gofrestru'r prosiect yn nodi'r ffurf y bwriedir ei gyflwyno, h.y. traethawd ymchwil, portffolio neu gyhoeddiad, y mae'n rhaid i FRDC ei gymeradwyo.

3.1.8 Mae cofrestru prosiect ymgeisydd yn cychwyn ar ddyddiad ei gofrestru am y tro cyntaf ac fel arfer yn gorffen ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil. Disgwylir i gofrestriad ymgeisydd, fodd bynnag, barhau hyd nes y bydd y broses arholi wedi ei chwblhau.

3.1.9 Os bydd ymgeisydd, y Brifysgol neu'r sefydliad cydweithredol yn dymuno i'r cyflwyniad, neu ran ohono, aros yn gyfrinachol am gyfnod ar ôl iddo gael ei gwblhau, dylid cyflwyno cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil (RDC) ar adeg cofrestru prosiectau. Ni fydd y

cyfnod a gymeradwyir fel arfer yn fwy na phum mlynedd o'r dyddiad cwblhau.

3.1.10 Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos cynnydd boddhaol yn ystod eu hastudiaethau er mwyn i'r cofrestriad a'r cofrestriad prosiect barhau (gweler adran 5).

3.2 Sefydlu ac ymgyfarwyddo

3.2.1 Ar ôl cofrestru ar raglen gradd ymchwil ôl-raddedig, disgwylir i ymgeiswyr fynychu rhaglen sefydlu a drefnir gan yr Ysgol Graddedigion. Fel rhan o hyn, cyflwynir rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau perthnasol. Cyflwynir ymgeiswyr hefyd i *Rhaglen Datblygu Ymchwil ac Arloesedd* y Brifysgol.

3.2.2 Bydd Cyfarwyddwr Astudiaethau ymgeisydd yn sicrhau ei fod yn derbyn hyfforddiant sefydlu ar lefel Cyfadran.

3.2.3 Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r ymgeisydd gyda'i gilydd yn cynnal asesiad o anghenion sgiliau er mwyn penderfynu a oes unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gefnogi ei astudiaethau. Gall hyn gynnwys hyfforddiant pwnc penodol, dulliau ymchwil neu hyfforddiant sgiliau generig.

3.3 Cyfnod cofrestru'r prosiect

3.3.1 Mae isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru prosiect ar gyfer graddau drwy'r llwybr traethawd ymchwil (*ynghyd â chyfnodau disgwyliedig*) fel y nodir isod:

ASTUDIO AMSER LLAWN			
Gradd drwy'r llwybr traethawd ymchwil	**Isafswm**	**Uchafswm**	***Disgwyliedig***
M drwy Ymchwil	12 mis	18 mis	*12 mis*
MPhil	18 mis	36 mis	*24 mis*
MPhil / PhD	33 mis	60 mis	*36-48 mis*
PhD Uniongyrchol	24 mis	60 mis	*36-48 mis*

Doethuriaeth Broffesiynol	33 mis	60 mis	*36-48 mis*

ASTUDIO RHAN-AMSER			
Gradd yn ôl y llwybr traethawd ymchwil	**Isafswm**	**Uchafswm**	***Disgwyliedig***
M drwy Ymchwil	24 mis	36 mis	*24 mis*
MPhil	30 mis	48 mis	*36 mis*
MPhil / PhD	45 mis	72 mis	*60 mis*
PhD Uniongyrchol	36 mis	72 mis	*60 mis*
Doethuriaeth Broffesiynol	45 mis	72 mis	*60 mis*

3.3.2 Cyfnod cofrestru'r prosiect ar gyfer PhD drwy'r llwybr portffolio yw 1-5 mlynedd.

3.3.3 Os bydd ymgeisydd yn trosglwyddo'i gofrestriad ac yn cofrestru'r prosiect o Brifysgol arall, caiff cyfnod cofrestru'r prosiect ei addasu i ystyried ei ymgeisyddiaeth flaenorol.

3.3.5 Rhaid i'r cyflwyniad i'w arholi fod o fewn y cyfnod cofrestru prosiect a gymeradwywyd.

Statws 'Ysgrifennu'

3.3.6 Gall ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig sydd wedi cwblhau ei ymchwil a'i gyfnod cofrestru prosiect *disgwyliedig* arferol, ac sy'n ysgrifennu eu traethawd ymchwil ar gyfer ei gyflwyno, wneud cais i roi statws 'Ysgrifennu'.

3.3.7 Gall ymgeiswyr amser llawn a rhan-amser aros fel 'Ysgrifennu' am gyfnod o flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn talu ffi dysgu ostyngol fel y pennir gan y Brifysgol. Os bydd ymgeisydd yn cyrraedd diwedd ei gyfnod 'Ysgrifennu' heb gyflwyno eu traethawd ymchwil i'w arholi, gall ffioedd llawn ailddechrau.

3.3.8 Bydd ymgeisydd yn gwneud cais i'r Ysgol Graddedigion i nodi ei gyfnod 'Ysgrifennu' a bydd y cais yn cynnwys cadarnhad ysgrifenedig:

a) eu bod wedi cwblhau eu holl gasglu a dadansoddi data;

b) maent yn disgwyl cyflwyno eu traethawd ymchwil i'w arholi o fewn y 12 mis nesaf;

c) nad oes angen mynediad arnynt mwyach i labordai ymchwil a/neu ofod desg neilltuedig;

ch) datganiad ategol gan Gyfarwyddwr Astudiaethau'r ymgeisydd yn cadarnhau'r uchod.

3.3.9 Dylai ymgeisydd sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer rhoi statws 'Ysgrifennu' drafod gyda'i oruchwylwyr pa mor ymarferol fyddai cyflwyno eu traethawd ymchwil i'w arholi o fewn 12 mis cyn gwneud eu cais.

3.4 Newidiadau i gofrestru a chofrestru prosiect

3.4.1 Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC) yn gyfrifol am gymeradwyo newidiadau i gofrestriad ymgeisydd a/neu gofrestriad prosiect, gan gynnwys newidiadau i:

- Prosiect a/neu deitl ymchwil
- Tîm goruchwylio
- Modd mynychu
- Cofrestru a/neu statws cofrestru prosiect (e.e. toriad ar astudio, ymestyn cofrestru prosiect)
- Rhaglen gradd e.e. PhD i MPhil

3.4.2 Ni chaniateir newid y ffurf cyflwyno ar gyfer prosiect cofrestredig (e.e. PhD drwy draethawd ymchwil i PhD drwy gyhoeddiad) ar unrhyw adeg.

3.4.3 Lle bo newid i ddull astudio ymgeisydd, e.e. o amser llawn i rhan-amser neu i'r gwrthwyneb, yn cael ei gymeradwyo gan y FRDC, bydd cyfnod cofrestru'r ymgeisydd yn cael ei addasu yn unol â hynny.

Toriad ar Astudio

3.4.4 Pan na fydd ymgeisydd yn gallu gweithio ar ei radd ymchwil ôl-raddedig, oherwydd iechyd neu resymau derbyniol eraill, gallant wneud cais i'r FRDC am *doriad ar astudio*. Os caiff ei gymeradwyo, bydd cofrestriad yr ymgeisydd a'i gofrestriad prosiect yn cael eu hatal dros gyfnod yr ymyriad a gymeradwyir. Ni fydd y FRDC fel arfer yn cymeradwyo *toriad ar astudio* o fwy na blwyddyn.

3.4.5 Os yw'r ymgeisydd yn fyfyriwr Rhyngwladol sy'n astudio ar gyfer fisa myfyrwyr, adroddir am eu *toriad ar astudio* i UKVI a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd adael y DU gan y bydd ei fisa yn cael ei gwtogi, yn unol â gofynion cyhoeddedig y Brifysgol *Gweithdrefnau Absenoldeb Myfyrwyr PGR Rhyngwladol* a gofynion UKVI.

Estyniad i gofrestriad prosiect

3.4.6 Os oes amgylchiadau eithriadol, gall y FRDC gymeradwyo estyniad i gyfnod cofrestru prosiect ymgeisydd, fel arfer am ddim mwy na blwyddyn ac fel arfer heb orfod talu unrhyw ffi dysgu pellach.

Cais i dynnu'n ôl o astudio

3.4.7 Lle bydd ymgeisydd yn dewis tynnu'n ôl o astudio, rhaid iddo hysbysu'r Ysgol Graddedigion fel y gellir nodi hyn gan y FRDC. Gall methu â gwneud hynny arwain at roi'r gorau i astudio gan y Brifysgol, yn unol ag adran 3.6.

3.4.8 Os yw'r ymgeisydd yn fyfyriwr rhyngwladol sy'n astudio ar gyfer fisa Haen 4, adroddir eu bod wedi *tynnu'n ôl* i UKVI a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd adael y DU oherwydd bydd ei fisa yn cael ei gwtogi, yn unol â gofynion UKVI.

3.4.9 Os yw ymgeisydd sydd wedi tynnu'n ôl o'i radd ymchwil ôl-raddedig yn dymuno dychwelyd i'w raglen astudio yn ddiweddarach, mae'n rhaid iddo gyflwyno cais gradd ymchwil newydd i'r Brifysgol.

3.5 Ymgysylltu â myfyrwyr

Amser a dreuliwyd yn gwneud ymchwil

3.5.1 Disgwylir i ymgeisydd sydd wedi'i gofrestru ar sail amser llawn dreulio o leiaf 35 awr yr wythnos ar ei brosiect ymchwil; disgwylir i ymgeisydd cofrestredig rhan-amser dreulio ar gyfartaledd 12 awr yr wythnos ar ei brosiect ymchwil.

Presenoldeb disgwyliedig

3.5.2 Fel arfer, disgwylir i ymgeisydd fynychu campws y Brifysgol fel y bo'n briodol ar gyfer ei astudiaethau neu fod wedi cytuno ar drefniadau ymlaen llaw gyda'r Brifysgol lle nad yw hyn yn bosibl neu y byddai'n llesteirio cynnydd gyda'u hastudiaethau. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio ar fisa myfyrwyr lynu at *Bolisi Monitro Presenoldeb y Brifysgol ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol*.

Casglu data i ffwrdd o'r Brifysgol

3.5.3 Ar gyfer rhai prosiectau bydd angen i ymgeiswyr gynnal ymchwil a/neu gasglu data i ffwrdd o'r Brifysgol am gyfnod byr o amser. Lle bo angen hyn dylai hyn fod yn amlwg yn y cynnig ymchwil, yn enwedig lle cynhelir yr ymchwil dramor, gan y bydd angen asesu risg cyn y caniateir i'r ymgeisydd gofrestru. Os oes angen casglu data i ffwrdd o'r Brifysgol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gael awdurdodiad gan ei Gyfarwyddwr Astudiaethau cyn dechrau ei 'astudio i ffwrdd'. Wrth wneud cais am, ac yn ystod unrhyw gyfnod 'astudio i ffwrdd' a gymeradwywyd, rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau cydymffurfiaeth â *Gweithdrefnau 'Astudio i Ffwrdd' Myfyrwyr Rhyngwladol PGR* y Brifysgol.

Absenoldeb awdurdodedig

3.5.4 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall ymgeisydd wneud cais i'r Brifysgol am gyfnod o absenoldeb dros dro o hyd at 20 diwrnod gwaith, yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol. Mae absenoldeb rhwng 3-20 diwrnod gwaith yn gofyn am gymeradwyaeth ar lefel Prifysgol; gall Cyfarwyddwr Astudiaethau'r ymgeisydd awdurdodi cyfnod byrrach.

Gwyliau blynyddol

3.5.5 Mae gan ymgeisydd amser llawn hawl i 35 diwrnod o wyliau blynyddol bob blwyddyn academaidd (ac eithrio gwyliau banc a diwrnodau cau). Mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ym mis Hydref. Pan fydd ymgeisydd yn dechrau ei astudiaethau ym mis Ionawr neu fis Ebrill, bydd ei lwfans gwyliau blynyddol ar gyfer ei flwyddyn gyntaf yn cael ei gyfrifo ar sail pro rata.

3.5.6 Os na fydd ymgeisydd yn defnyddio ei holl lwfans gwyliau blynyddol mewn unrhyw gyfnod o wyliau blynyddol, gall gario *hyd at bum niwrnod* i'r flwyddyn ganlynol.

3.5.7 Mae'n ofynnol i unrhyw wyliau blynyddol gael ei awdurdodi gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau cyn i'r ymgeisydd gymryd absenoldeb. Yn achos myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio ar fisa myfyrwyr, hysbysir yr Ysgol Graddedigion a chedwir cofnod canolog o wyliau blynyddol yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol.

Myfyrwyr ymchwil sy'n addysgu

3.5.8 Gall ymgeisydd wneud cais i ymgymryd â darlithio a delir fesul awr yn y Brifysgol tra wedi cofrestru ar gyfer ei radd ymchwil ôl-raddedig. Dylid cytuno ar unrhyw oriau addysgu ymlaen llaw gyda Chyfarwyddwr Astudiaethau'r ymgeisydd a Phennaeth yr Ysgol, ac ni ddylid awdurdodi addysgu os yw'n debygol o effeithio ar gwblhau eu PhD yn brydlon.

3.5.9 Os yw ymgeisydd wedi'i gofrestru'n amser llawn, rhaid iddo wneud dim mwy na chwe awr o addysgu'r wythnos, sy'n cynnwys amser marcio a pharatoi.

3.6 Terfynu astudiaethau

3.6.1 Mae terfynu astudiaethau ymgeisydd yn cyfeirio at derfynu ei gofrestriad gan y Brifysgol.

Rhesymau dros derfynu astudiaethau

3.6.2 Mae sawl rheswm dros derfynu astudiaethau ymgeisydd:

a) Bod un o asesiadau ffurfiol yr ymgeisydd yn cael ei ystyried yn anfoddhaol:
   • Adolygiad cynnydd blynyddol
   • Cwblhau cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag adolygiad cynnydd *llai* na *boddhaol*
   • Trosglwyddo o MPhil i PhD.

b) Pan fernir bod ymgeisydd wedi mynd yn anweithgar heb gael cymeradwyaeth ar gyfer *toriad ar astudio* (gweler rheoliad 3.4.4);

c) Bod cyfnod cofrestru prosiect ymgeisydd wedi dod i ben cyn ei gyflwyno i'w arholi neu'r cyfnod y mae wedi'i gymeradwyo i gwblhau newidiadau i'r traethawd ymchwil neu ailgyflwyniad wedi dod i ben cyn y cyflwyniad diwygiedig ac

nad ydynt wedi gwneud cais ffurfiol am estyniad i'w cofrestriad prosiect;

ch) ceir ymgeisydd yn euog o achos difrifol o dorri rheoliadau'r Brifysgol, er enghraifft mewn perthynas ag ymddygiad academaidd neu ymchwil (cyfeiriwch at God Ymddygiad Myfyrwyr, Rheoliadau Camymddwyn Academaidd a Chod Ymddygiad Arfer Da o ran Ymchwil).

Lle mae ymgeisydd wedi mynd yn anweithgar

3.6.3 Bernir bod ymgeisydd wedi mynd yn anweithgar lle:

a) Eu bod wedi methu ail-gofrestru o fewn y cyfnod cofrestru disgwyliedig. Bydd hyn yn galw am rybudd ysgrifenedig gan yr Ysgol Graddedigion ac os na fydd yr ymgeisydd yn ymateb erbyn y dyddiad cau a bennwyd, fe'i gwaherddir yn ffurfiol o'r Brifysgol;

b) Maent wedi methu ag ymgysylltu â'u rhaglen astudio *neu'r* Brifysgol am *gyfnod o dri mis*. Yn yr achos hwn, bydd yr Ysgol Graddedigion yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn gofyn iddynt gysylltu erbyn dyddiad cau penodol. Os nad yw'r ymgeisydd yn ymateb, bydd y FRDC yn ystyried gwahardd yr ymgeisydd o'r Brifysgol yn ffurfiol;

c) Maent wedi methu â chyflwyno eu hadolygiad cynnydd blynyddol *ac* wedi methu ag ymateb i nodyn atgoffa gan yr Ysgol Graddedigion i gwblhau eu harolwg cynnydd erbyn terfyn amser penodol. Pe bai hyn yn digwydd, ac na ellir darparu unrhyw dystiolaeth o fewn yr amserlen benodedig i gyfiawnhau'r oedi, gwaherddir yr ymgeisydd yn ffurfiol o'r Brifysgol.

3.6.4 Hysbysir UKVI pan fydd myfyriwr rhyngwladol sy'n astudio ar fisa myfyrwyr yn cael ei wahardd neu ei derfynu, a bydd yn ofynnol i'r myfyriwr adael y DU gan y cwtogir eu fisa, yn unol â gofynion UKVI.

3.7 Gofynion eraill ac amodau cofrestru a chofrestru prosiectau

3.7.1 Disgwylir i bob ymgeisydd gradd ymchwil ôl-raddedig fod yn gyfarwydd â'r canlynol a chydymffurfio â nhw:

a) Rheoliadau Graddau Ymchwil Ôl-raddedig y Brifysgol a Chod Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig;

b) *Fframwaith Llywodraethu Ymchwil* y Brifysgol, sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol ar gyfer sicrhau uniondeb ymchwil; sicrhau cymeradwyaeth foesegol; ac arfer da o ran rheolaeth data ymchwil;

c) Unrhyw reoliadau, polisïau a gweithdrefnau eraill sy'n effeithio arnynt, megis iechyd a diogelwch, camymddwyn academaidd ac eiddo deallusol.

3.7.2 Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am:

a) Cynnal cyswllt rheolaidd ac aml â'u tîm goruchwylio a pharatoi'n briodol ar gyfer cyfarfodydd gyda goruchwylwyr;

b) Cychwyn cyfarfodydd gyda goruchwylwyr a chadw cofnodion cyfarfodydd priodol;

c) Cynllunio a chyflwyno gwaith yn ôl y gofyn a chynnal cynnydd academaidd boddhaol;

ch) Cydymffurfio â gofynion monitro cynnydd yn flynyddol ar bob cam o'r broses gofrestru;

d) Ymgysylltu ag unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd wedi'i nodi a'i gytuno â goruchwylwyr o ganlyniad i ddadansoddiad o anghenion sgiliau a/neu gyfarfodydd tîm goruchwylio;

dd) Codi ymwybyddiaeth o unrhyw anghenion neu amgylchiadau penodol sy'n debygol o effeithio naill ai ar eu hastudiaethau neu ar eu cwblhau'n brydlon.

3.7.3 Os nad yw ymgeisydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau, fel yr amlinellir yn rheoliad 3.7.1 a/neu reoliad 3.7.2, gall fod yn destun gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer rheoli perfformiad anfoddhaol a allai arwain at derfynu astudiaethau'r ymgeisydd yn unol ag adran 3.6.

4. Goruchwylio

4.1 Timau goruchwylio

Cyfansoddiad

4.1.1 Bydd ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig yn cael ei oruchwylio gan dîm goruchwylio sy'n cynnwys o leiaf ddau a, dim mwy na tri goruchwyliwr.

4.1.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y tîm goruchwylio gynnwys goruchwyliwr a gyflogir mewn sefydliad arall.

4.1.3 Yn ogystal â'r goruchwylwyr, gall cynghorwr gyfrannu gwybodaeth arbenigol, neu gysylltiad â sefydliad allanol.

4.1.4 Gall fod gofyniad i newid cyfansoddiad y tîm goruchwylio; mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC).

Cymhwyster i oruchwylio

4.1.5 Bydd pob aelod o'r tîm goruchwylio yn ymchwilio'n weithredol gydag arbenigedd perthnasol a rhyngddynt, bydd ganddynt gofnod ymchwil a chyhoeddiadau sylweddol yn y maes.

4.1.6 Bydd gan y tîm goruchwylio brofiad cyfunol o oruchwylio o leiaf ddau ymgeisydd i gwblhau'n llwyddiannus ar neu uwchlaw lefel y rhaglen arfaethedig.

4.1.7 Rhaid i bob goruchwyliwr newydd ddilyn hyfforddiant priodol ar gyfer goruchwylwyr. Rhaid i oruchwylwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant a/neu ddatblygiad perthnasol o leiaf bob tair blynedd.

4.1.8 Nid yw myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol, neu rywle arall, yn gymwys i fod yn oruchwyliwr, neu'n gynghorydd, i fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig arall sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol.

4.1.9 Bydd y FRDC yn monitro cymhwysedd parhaus i oruchwylio drwy ddata gynnydd myfyrwyr ac adroddiadau cwblhau, cynnydd ac adolygu, hyfforddiant goruchwylio presenoldeb, adborth gan fyfyrwyr a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Graddau Ymchwil y Brifysgol.

Cyfarwyddwr Astudiaethau

4.1.10 Bydd un aelod o'r tîm goruchwylio yn Gyfarwyddwr Astudiaethau (goruchwyliwr cyntaf) a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r ymgeisydd yn rheolaidd ac yn aml. Cyfrifoldebau eraill y Cyfarwyddwr Astudiaethau fydd sicrhau:

a) Bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o Fframwaith Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol ac yn cydymffurfio ag ef, sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig y Brifysgol ar gyfer sicrhau uniondeb ymchwil; sicrhau cymeradwyaeth foesegol; ac arfer da o ran rheolaeth data ymchwil;

b) Bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n effeithio ar ei astudiaethau, gan gynnwys iechyd a diogelwch, ymddygiad academaidd ac eiddo deallusol, ac yn cydymffurfio â'r polisïau hynny;

c) Bod yr ymgeisydd yn gwneud dadansoddiad o anghenion sgiliau ar ddechrau ei astudiaethau, lle nodir unrhyw anghenion hyfforddiant a datblygu perthnasol;

ch) Bod Deon y Gyfadran neu Bennaeth yr Ysgol yn cael gwybod am unrhyw gyfleusterau/adnoddau penodol sy'n ofynnol, a'u bod, ar ôl cytuno ar yr adnoddau hyn, yn cael eu darparu gan yr adran briodol;

d) Bod yr ymgeisydd yn cael unrhyw hyfforddiant ac arweiniad angenrheidiol wrth ddilyn ei raglen ymchwil;

dd) Bod yr holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â chofrestru, monitro dilyniant ac arholi yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

4.1.11 Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn aelod o staff y Brifysgol a bydd yr ymgeisydd yn cofrestru yn y Gyfadran lle lleolir y Cyfarwyddwr Astudiaethau.

4.2 Capasiti goruchwylio

4.2.1 Gall goruchwyliwr oruchwylio uchafswm o 10 o fyfyrwyr ymchwil, gan gynnwys dim mwy na chwech fel Cyfarwyddwr Astudiaethau. Gellir cynyddu'r uchafswm a ganiateir o dan amgylchiadau eithriadol lle bo FRDC wedi'i fodloni bod dyletswyddau academaidd eraill y goruchwyliwr wedi'u haddasu i ganiatáu ar gyfer hyn.

4.2.2 Os bydd goruchwyliwr yn gadael y Brifysgol, bydd yr FRDC yn adolygu cyfansoddiad y tîm goruchwylio a bydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'r ymgeisydd. Lle mae hyn yn profi'n amhosibl, bydd y Brifysgol: (1) yn cadw'r hawl i dynnu cynnig yn ôl lle bo hyn yn digwydd cyn cofrestru; neu (2) yn ymdrechu i hwyluso trosglwyddiad yr ymgeisydd mewn man arall.

4.3.2 Os nad oes gan ymgeisydd oruchwylwyr dros dro, penodir un o fewn mis ar ôl i Ysgol y Graddedigion gael gwybod am ymadawiad staff. Gall hyn fod yn drefniant dros dro i sicrhau parhad cefnogaeth fugeiliol ac arweiniad. Mae lleoli goruchwylwyr sydd ag arbenigedd priodol fel arfer yn broses hirach. Bydd y FRDC yn ceisio penodi goruchwylwyr gydag arbenigedd priodol o fewn cyfnod rhesymol. Lle mae hyn yn amhosib, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i hwyluso trosglwyddo'r ymgeisydd yn rhywle arall.

4.3 Y Broses Goruchwylio

4.3.1 Mae'r ymgeisydd a'i dîm goruchwylio yn rhannu'r cyfrifoldeb am gynnal cyswllt rheolaidd, fel sy'n briodol ar gyfer y cam astudio, ond o leiaf unwaith y mis.

4.3.2 Caiff cofnod ffurfiol o bob cyfarfod ei gadw gan yr ymgeisydd a'i dîm goruchwylio, a bydd yn cynnwys targedau ac amcanion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

4.3.3 Gall y tîm goruchwylio godi pryderon ynghylch cynnydd ymgeisydd gyda'r FRDC a allai arwain at gymryd camau pellach.

5. Trefniadau Adolygu Dilyniant

5.1 Cyffredinol

5.1.1 Bydd cynnydd ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig tuag at gwblhau'n llwyddiannus o fewn cyfnodau amser a gymeradwywyd yn cael ei fonitro gan y Brifysgol.

5.2 Adolygiad cynnydd chwe mis

5.2.1 Caiff datganiad cynnydd ei gwblhau gan Gyfarwyddwyr Astudiaethau chwe mis ar ôl cofrestriad cychwynnol ymgeisydd. Caiff hyn ei adolygu gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC) a fydd yn edrych ar unrhyw bryderon a nodwyd yn ystod gweddill y flwyddyn astudio gyntaf.

5.2.2 Pan nodir pryderon ynghylch cynnydd yn ystod y chwe mis cyntaf, rhoddir cynllun gweithredu priodol ar waith gan y FRDC. Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn adrodd yn ôl i FRDC o fewn amserlen benodol i ddiweddaru'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

5.3 Adolygiad cynnydd blynyddol

5.3.1 Bydd adolygiad cynnydd blynyddol mwy trylwyr yn cael ei gwblhau gan yr ymgeisydd a'i Gyfarwyddwr Astudiaethau. Bydd aelodau eraill o'r tîm goruchwylio yn cael cyfle i adolygu a gwneud sylwadau ar yr adolygiad cynnydd.

5.3.2 Fel rhan o'r adolygiad cynnydd blynyddol, bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu'r goruchwyliwr enwebedig yn graddio cynnydd yr ymgeisydd fel a ganlyn:

A. Rhagorol

B. Da Iawn

C. Da / Boddhaol

CH. Ychydig o gynnydd wedi'i wneud

D. Anfoddhaol

5.3.3 Pan fydd cynnydd ymgeisydd wedi'i raddio yn is nag anfoddhaol, bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu'r goruchwyliwr enwebedig yn cynnwys manylion unrhyw ffactorau a allai fod wedi rhwystro cynnydd yn ystod y cyfnod adolygu.

5.3.4 Caiff adolygiadau cynnydd blynyddol, ac unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennaeth berthnasol arall, eu hystyried gan Fwrdd Cynnydd (gweler rheoliad 1.1.13). Mae enghreifftiau o wybodaeth a/neu ddogfennau perthnasol eraill yn cynnwys dyddiadau cofrestru'r ymgeisydd, adroddiadau goruchwylio a cherrig milltir dilyniant disgwyliedig perthnasol eraill megis trosglwyddo o MPhil i PhD.

Canlyniadau adolygiad cynnydd blynyddol

5.3.5 Bydd y Bwrdd Cynnydd yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

1. Caniatáu i'r ymgeisydd barhau;

2. Caiff cynnydd yr ymgeisydd ei fonitro yn erbyn cynllun gweithredu y cytunwyd arno o fewn amserlen benodol;

3. Caiff astudiaeth yr ymgeisydd ei therfynu.

5.3.6 Pan fydd cynnydd ymgeisydd yn cael ei fonitro yn erbyn cynllun gweithredu y cytunwyd arno yn dilyn y Bwrdd Cynnydd, caiff ei ddilyniant ei asesu eto ar ddiwedd y cyfnod monitro. Os yw'n foddhaol, caniateir i'r ymgeisydd barhau â'i astudiaethau. Os yw'n anfoddhaol, gellir terfynu astudiaeth yr ymgeisydd yn unol â rheoliad 3.6.2 (a).

5.3.7 Bydd y Bwrdd Cynnydd yn cael cadarnhad gan y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant pan fydd ymgeisydd Doethuriaeth Broffesiynol wedi cwblhau'n llwyddiannus yr elfen o'i raglen a addysgir. Bydd hyn yn llywio dilyniant i'r elfen ymchwil ac yn pennu cymhwyster yr ymgeisydd i barhau.

Apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Cynnydd

5.3.8 Gall ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Cynnydd ond dim ond o dan feini prawf penodol, yn unol â R*heoliadau a Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd y Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil.*

6. Trosglwyddo o MPhil i PhD

6.1 Cais i drosglwyddo o MPhil i PhD

6.1.1 Bydd ymgeisydd sy'n cofrestru ar raglen MPhil/PhD i ddechrau (gweler rheoliad 3.1.4) yn gwneud cais i Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran (FRDC) i drosglwyddo o astudio ar lefel MPhil i PhD o fewn 12 mis i gofrestru prosiect ar gyfer astudio'n amser llawn, ac o fewn 24 mis i gofrestru prosiect ar gyfer astudio'n rhan-amser.

6.1.2 I gefnogi'r cais i drosglwyddo, bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno adroddiad trosglwyddo o hyd at 6000 o eiriau. Bydd hyn yn cynnwys:

a) Adolygiad a thrafodaeth o'r gwaith a wnaed eisoes;
b) Datganiad o'r gwaith pellach bwriedig (gan gynnwys manylion y cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth sy'n debygol o ddod i'r amlwg);
c) Cynllun ymchwil neu atodlen

6.2 Asesiad trosglwyddo o MPhil i PhD

Asesiad gan arbenigwyr pwnc annibynnol

6.2.1 Bydd y FRDC yn penodi *arbenigwr pwnc annibynnol* i adolygu'r adroddiad trosglwyddo a gyflwynwyd a chynnal asesiad byr viva voce. Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu aelod arall o dîm goruchwylio'r ymgeisydd yn arsylwi ar hyn.

6.2.2 Ar ôl yr asesiad trosglwyddo, bydd yr arbenigwr pwnc annibynnol yn gwneud argymhelliad i FRDC (gweler rheoliad 6.2.6). Mae'r penderfyniad ar drosglwyddo yn nwylo'r FRDC.

6.2.3 Wrth gymeradwyo trosglwyddo ymgeisydd o MPhil i PhD, rhaid i'r FRDC fod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud digon o gynnydd a bod y prosiect arfaethedig yn darparu sail addas ar gyfer gwaith ar safon doethurol y mae'r ymgeisydd yn gallu ei ddilyn hyd at ei gwblhau.

Penodi arbenigwr pwnc annibynnol

6.2.4 Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau'n rhoi manylion tri arbenigwr annibynnol i'r FRDC a dewisir un ohonynt i gynnal asesiad trosglwyddo'r ymgeisydd.

6.2.5 Mae'n rhaid i'r arbenigwr pwnc annibynnol gael profiad o oruchwylio i gwblhau'n llwyddiannus ar lefel doethuriaeth.

Canlyniadau posibl yr asesiad trosglwyddo

6.2.6 Bydd gan y broses drosglwyddo un o'r canlyniadau canlynol:

a) Caniateir i'r ymgeisydd fynd ymlaen i wneud PhD;

b) Caniateir i'r ymgeisydd fynd ymlaen i wneud PhD gydag amodau penodol (i'w hystyried o fewn amserlen gytunedig);

c) Ni chaniateir i'r ymgeisydd fynd ymlaen i wneud PhD ac mae'n ofynnol iddo ailgyflwyno ei adroddiad trosglwyddo ar gyfer asesiad pellach o fewn amserlen gytunedig;

ch) Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno ar gyfer MPhil;

d) Mae astudiaeth yr ymgeisydd yn cael ei therfynu.

6.2.7 Os na chaniateir i ymgeisydd fynd ymlaen i wneud PhD neu os oes angen iddo ailgyflwyno ei adroddiad trosglwyddo, bydd yn cael adborth ysgrifenedig ar ei gais.

6.2.8 Os yw'n ofynnol i ymgeisydd ailgyflwyno ei adroddiad trosglwyddo am asesiad pellach o fewn amserlen gytunedig, caniateir ailgyflwyno unwaith yn unig.

Apelio yn erbyn penderfyniad y FRDC ar drosglwyddo

6.2.9 Gall ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad y FRDC ond dim ond o dan feini prawf penodol, yn unol â R*heoliadau a Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd y Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil.*

7. Y Traethawd Ymchwil

7.1 Gofynion ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi

7.1.1 Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno ei draethawd ymchwil cyn i'w uchafswm cyfnod cofrestru ddod i ben. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle ceir tystiolaeth bod ymchwil ymgeisydd yn mynd yn ei flaen yn eithriadol o dda, gall y Pwyllgor Graddau Ymchwil (RDC) gymeradwyo cyflwyno'r gwaith yn gynnar, h.y. ei gyflwyno cyn isafswm y dyddiad cofrestru. O fewn y fframiau amser hyn, mae cyflwyno'r traethawd ymchwil yn ôl disgresiwn yr ymgeisydd yn unig.

7.1.2 Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno copi electronig o'i draethawd ymchwil i'r Ysgol Graddedigion, a fydd yn cael ei anfon at arholwyr. Efallai y bydd angen copi printiedig o'r cyflwyniad ar yr arholwyr hefyd. Bydd yr Ysgol Graddedigion yn penderfynu ar ddewis yr arholwyr adeg eu penodi a byddant yn cael eu cyfleu i'r ymgeisydd. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu digon o gopïau printiedig ar gyfer arholwyr. Rhaid i unrhyw gopïau printiedig a ddarperir ar gyfer arholwyr fod yn union yr un fath â'r copi electronig a gyflwynwyd.

7.1.3 Eiddo'r Brifysgol yw'r copïau o'r cyflwyniad a gyflwynir i'w arholi, ond fel arfer breiniwyd yr hawlfraint yn y cyflwyniad gan yr ymgeisydd yn unol â *Pholisi Hawliau Eiddo Deallusol Myfyrwyr* y Brifysgol.

7.1.4 Mae'r ymgeisydd yn rhydd i gyhoeddi deunydd o'r traethawd ymchwil cyn cyflwyniad, ond dylid cyfeirio at hyn yn y cyflwyniad.

7.2 Uchafswm terfynau geiriau

Ar gyfer cyflwyniadau drwy lwybr traethawd ymchwil

7.2.1 Fel rheol ni ddylai prif gorff y testun (ac eithrio llyfryddiaeth ac atodiadau) fod yn fwy na'r canlynol:

Dyfarniad	**Uchafswm hyd testun**
Doethur mewn Athroniaeth/Doethur mewn Gweinyddiaeth Busnes	100,000 o eiriau
Doethur mewn Seicoleg Cwnsela	50,000 o eiriau

Meistr mewn Athroniaeth	60,000 o eiriau
Meistr drwy Ymchwil	40,000 o eiriau

Dylai hyd testun fod yn briodol i fethodoleg y pwnc a meini prawf y dyfarniad.

Ar gyfer cyflwyniadau yn cynnwys gweithfeydd creadigol

7.2.2

Lle bo'r cyflwyniad yn cynnwys naill ai gwaith creadigol yr ymgeisydd ei hun e.e. ysgrifennu creadigol, neu argraffiad ysgolheigaidd o waith creadigol pobl eraill, bydd hyd testun y traethawd ymchwil yn cael ei addasu'n unol â hynny ac fel arfer ni fydd yn fwy na:

Dyfarniad	**Uchafswm hyd testun**
Doethur mewn Athroniaeth	40,000 o eiriau
Meistr mewn Athroniaeth	25,000 o eiriau
Meistr drwy Ymchwil	15,000 o eiriau

Dylai hyd testun fod yn briodol i fethodoleg y pwnc a meini prawf y dyfarniad.

Ar gyfer PhD drwy gyhoeddiad a PhD drwy bortffolio

7.2.3 Bydd hyd testun y cyflwyniad ar gyfer naill ai PhD drwy bortffolio neu gyhoeddiad fel arfer yn cyfateb i'r hyn mewn traethawd ymchwil PhD traddodiadol, a dylai fod yn briodol i fethodoleg y pwnc a meini prawf y dyfarniad. Fel arfer, ni fydd y trosolwg beirniadol a gynhwysir fel rhan o'r cyflwyniad yn fwy na 15,000 o eiriau.

7.3 Y cyflwyniad a diwyg y cyflwyniad

7.3.1 Fel arfer cyflwynir y cyflwyniad yn Gymraeg neu yn Saesneg ac eithrio pan fo pwnc y cyflwyniad yn cynnwys iaith ac astudiaethau cysylltiedig. O dan amgylchiadau o'r fath, gall y RDC ganiatáu cyflwyno mewn iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg. Os felly, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu crynodeb ar wahân o 1000 o eiriau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

7.3.2 Bydd y cyflwyniad yn cynnwys:

a) Datganiad mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r cyflwyniad;

b) Crynodeb o *ddim mwy na 500 o eiriau* (a fydd yn rhoi crynodeb o'r cyflwyniad gan gynnwys natur a chwmpas y gwaith a wnaed a'r cyfraniad a wnaed at wybodaeth);

c) Datganiad o amcanion ymchwil yr ymgeisydd;

ch) Cydnabod ffynonellau cyhoeddedig neu ddeunyddiau eraill yr ymgynghorwyd â hwy (gan gynnwys llyfryddiaeth briodol) ac unrhyw gymorth a gafwyd;

d) Arwydd clir o gyfraniad unigol yr ymgeisydd, lle mae'r ymchwil yn rhan o brosiect grŵp cydweithredol mwy.

7.3.3 Dylid cadw at y gofynion canlynol o ran diwyg yr holl draethodau ymchwil a gyflwynir:

a) Bydd y traethawd ymchwil fel arfer mewn fformat A4; gall y RDC roi caniatâd i gyflwyno cais mewn fformat arall os yw'n fodlon y gellir mynegi cynnwys y cyflwyniad yn well yn y fformat hwnnw;

b) Arial 11 fydd maint y cymeriadau a ddefnyddir yn y prif destun neu ffont Times New Roman 12, neu gyfwerth;

c) Rhaid defnyddio gofod dwbl neu un a hanner yn y deipysgrif ac eithrio dyfyniadau wedi'u mewnleoli a throednodiadau lle gellir defnyddio bwlch sengl;

ch) Dylai tudalennau gael eu rhifo'n olynol trwy'r prif destun gan gynnwys ffotograffau a/neu ddiagramau wedi'u cynnwys fel tudalennau cyfan;

d) Bydd y dudalen deitl yn rhoi'r wybodaeth ganlynol a bydd yn dilyn y cynllun a nodir yn Atodiad 1:

i. Teitl llawn y cyflwyniad

ii. Enw llawn yr ymgeisydd

iii. Enw'r sefydliad h.y. Prifysgol De Cymru

iv. Y dyfarniad y cyflwynir y cyflwyniad amdano yn cyflawni'n rhannol ei ofynion

v. Enw unrhyw sefydliad sy'n Cydweithredu

vi. Mis a Blwyddyn y cyflwyniad

dd) Rhwng y dudalen deitl a'r dudalen gyntaf o destun mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys:

i. tudalen diolchiadau, wedi'i rhifo gyda rhifolion Rhufeinig fel (i);

ii. crynodeb, wedi'i rifo fel tudalen (ii);

iii. Tabl Cynnwys y mae ei dudalennau wedi'u rhifo gyda rhifolion Rhufeinig dilynianol o (iii). Bydd hyn yn dangos y rhannau a/neu'r penodau a'r adrannau y rhennir y gwaith ynddynt. Bydd hyn fel arfer yn cael ei ddilyn gan restrau, gyda'u rhifau tudalennau priodol a manylion ategol priodol eraill, a all gynnwys:

- Rhestr o Ddiagramau
- Rhestr o Ffigurau
- Rhestr o Dablau
- Deunyddiau atodol
- Cyfeiriadau
- Rhestr o Atodiadau

Y cyfan wedi'u rhifo'n ddilyniannol mewn rhifolion Rhufeinig;

iv. Datganiad hawlfraint.

e) Dechrau'r prif destun;

f) Yn dilyn y prif destun – cyfeiriadau ac atodiadau.

Gofynion ychwanegol ar gyfer copïau printiedig i arholwyr

7.3.4 Pan ddarperir copi printiedig o'r cyflwyniad ar gyfer arholwyr, rhaid cadw at y gofynion ychwanegol canlynol o ran diwyg:

a) Rhaid i gopïau o'r traethawd ymchwil gael eu hargraffu ar ffurf barhaol a darllenadwy;

b) Gellir argraffu'r traethawd ymchwil ar ddwy ochr y dudalen neu ar yr ochr dde yn unig; bydd y papur yn wyn ac o fewn yr amrediad 70 g/m^2 to 100 g/m^2;

c) Bydd pob pennod ac atodiad yn dechrau ar dudalen dde;

ch) Ni fydd yr ymyl ar ymyl chwith y dudalen yn llai na 40mm; ni fydd ymylon eraill yn llai na 15mm.

7.4 Fersiwn terfynol y traethawd ymchwil

7.4.1 Yn dilyn ei arholi ac ymgorffori unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol gan arholwyr, a chyn dyfarnu'n derfynol, bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno un copi printiedig, ac un copi electronig o'r un fath, o'r traethawd ymchwil cymeradwy terfynol i'r Ysgol Graddedigion, ar gyfer archifo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Archifdy'r Brifysgol, yn y drefn honno. Bydd gofyn i'r ymgeisydd gwblhau ffurflen cytundeb adneuo traethawd ymchwil er mwyn i'r traethawd ymchwil gael ei archifo yn ystorfa'r Brifysgol gan y bydd ar gael ar-lein drwy fynediad agored.

7.4.2 Cyflwynir y traethawd ymchwil terfynol i'r Brifysgol o fewn un mis ar ôl hysbysu'r ymgeisydd bod yr arholwyr wedi cymeradwyo'r traethawd ymchwil ac unrhyw ddiwygiadau gofynnol.

7.4.3 Bydd y copi printiedig terfynol yn cael ei rwymo fel a ganlyn:

1. Rhwymo parhaol o fath sefydlog fel na ellir symud neu amnewid tudalennau, bydd y gorchuddion blaen a chefn yn ddigon anhyblyg (caled) fel eu bod yn cynnal pwysau'r gwaith wrth sefyll yn unionsyth;

2. Bydd y clawr blaen yn cynnwys (mewn o leiaf maint ffont 24): teitl y traethawd, enw'r ymgeisydd, Prifysgol De Cymru, enw'r dyfarniad a'r flwyddyn y'i cyflwynwyd. Bydd meingefn y gwaith yn cynnwys yr un wybodaeth (ac eithrio'r teitl a'r Brifysgol), gan ddarllen tuag i lawr.

7.4.4 Os yw'r cyflwyniad yn cynnwys gwaith creadigol, rhaid i'r dyddodiad olaf i'w adneuo i'r Ysgol Graddedigion ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol ac ystorfa ymchwil y Brifysgol gynnwys cofnod parhaol o'r gwaith creadigol, er enghraifft: recordio electronig, cofnod ffotograffig, sgôr gerddorol, neu gynrychioliad diagramatig.

7.5 Ceisiadau cyfrinachedd a mynediad cyfyngedig

7.5.1 Mewn rhai achosion, pan gadarnheir bod gwaith ymgeisydd yn gyfrinachol, gall y RDC gymeradwyo bod y traethawd ymchwil yn

cael ei ddal yn ôl o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ystorfa ymchwil y Brifysgol ac unrhyw Sefydliad Cydweithredol, a'i fod yn cael ei gadw gan y Brifysgol ar fynediad cyfyngedig. Mewn achosion o'r fath, dim ond i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect y bydd y cyflwyniad ar gael.

7.5.2 Fel arfer cyflwynir cais am i draethawd ymchwil aros yn gyfrinachol ar yr un pryd â'r cais yn ceisio cymeradwyaeth arholwyr.

7.5.3 Fel arfer bydd y RDC yn cymeradwyo cais am gyfrinachedd yn unig lle;

a) bod cais am batent yn yr arfaeth;
b) mae'r traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd sy'n fasnachol neu'n wleidyddol sensitif;
c) mae gofynion noddwr yn atal y traethawd ymchwil rhag cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd am gyfnod penodol y cytunwyd arno gan y Brifysgol.

Ni chyfyngir traethawd ymchwil yn y modd hwn er mwyn diogelu arweinwyr ymchwil ond *gall* gael ei ystyried gan y RDC.

7.5.4 Cyn cyflwyno cais am gyfrinachedd, dylai'r ymgeisydd ystyried y canlynol:

a) Y dybiaeth gychwynnol bob amser yw y dylai ymchwil fod ar gael i'r cyhoedd;
b) Ni ddylid defnyddio cyfrinachedd fel dewis amgen i ffyrdd cyfreithlon o wneud data yn ddienw er mwyn diogelu cyfranogwyr;
c) Gellir tynnu deunydd sensitif i atodiad a gosod embargo ar wahân fel bod y prif gorff ymchwil yn dal i fod ar gael i'r cyhoedd;
ch) Dylid ystyried materion sy'n ymwneud â niwed posibl i unigolion neu'r awdur fel rhan o gynllun yr ymchwil a'r broses gymeradwyo foesegol.

7.5.5 Lle mae RDC yn cymeradwyo cais am gyfrinachedd, cyfyngir mynediad am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

7.5.6 Gall ymgeisydd, os oes amgylchiadau eithriadol, wneud cais i RDC am estyniad i'r cyfnod cyfrinachedd.

8. Arholi

8.1 Egwyddorion Asesu

8.1.1 Rhaid i ymgeisydd ddangos i fodlonrwydd arholwyr ei fod yn bodloni gofynion disgrifydd cymwysterau cyhoeddedig y Brifysgol ar gyfer y dyfarniad y mae wedi'i gofrestru ar ei gyfer.

8.1.2 Rhaid i ymgeisydd sydd wedi'i gofrestru ar gyfer Doethuriaeth Broffesiynol gwblhau'r holl elfennau a addysgir o'i raglen yn llwyddiannus cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil terfynol (gweler rheoliad 5.3.7).

8.2 Ffurf Asesu

8.2.1 Mae pob arholiad gradd ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys dwy ran: (1) arholi'r traethawd ymchwil (neu'r ffurf amgen o gyflwyno) ac (2) amddiffyniad ar lafar o'r traethawd ymchwil (viva voce).

8.2.2 Os yw'r Gwasanaeth Anabledd yn cadarnhau bod yna dystiolaeth y byddai ymgeisydd o dan anfantais ddifrifol am resymau salwch neu anabledd (neu achos dilys cyffelyb) drwy gynnal arholiad viva voce, bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil (RDC) yn caniatáu dull amgen o arholi cywerth ag amddiffyniad llafar. Gallai hyn fod, er enghraifft, yn viva voce wedi'i chefnogi, neu'n gyfuniad o elfen ysgrifenedig (i fynd i'r afael â chwestiynau diffiniedig) gyda viva voce wedi'i byrhau.

8.3 Y Panel Arholi

Penodi

8.3.1 Mae RDC yn penodi'r Panel Arholi ar ran Bwrdd Academaidd y Brifysgol.

8.3.2 Mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau yn gyfrifol am gynnig y Panel Arholi i RDC mewn modd amserol, gan gymryd gofal i osgoi sefydlu trefniadau dwyochrog a allai arwain at ddiffyg gwrthrychedd.

8.3.3 Ni chaiff ymgeisydd gymryd unrhyw ran yn y broses o benodi arholwyr.

Cyfansoddiad

8.3.4 Mae pob panel arholi ar gyfer ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys y canlynol:

- Cadeirydd annibynnol
- Arholwr allanol
- Arholwr mewnol

Efallai y bydd angen penodi ail arholwr allanol yn lle, neu yn ogystal ag, arholwr mewnol lle:

- Mae'r ymgeisydd yn aelod staff (yn unol â Rheoliad 8.3.12)
- Mae'n profi'n amhosib penodi arholwr mewnol addas.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i RDC benodi arholwr allanol ychwanegol ar gyfer ymdriniaeth pynciau.

Bydd gan Aelodau'r Panel rhyngddynt brofiad sylweddol o arholi graddau ymchwil ôl-raddedig. Bydd ganddynt brofiad arholi blaenorol cyfunol ar gyfer o leiaf dri ymgeisydd gradd ymchwil ôl-radd ar lefel y dyfarniad neu'n uwch.

Cadeirydd y Panel Arholi

8.3.5 Bydd y RDC yn penodi person annibynnol i gadeirio arholiad viva voce ac unrhyw rag-gyfarfod o'r arholwyr. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y dull o gynnal yr arholiad yn deg ac yn unol â rheoliadau'r Brifysgol.

8.3.6 Bydd y Cadeirydd yn:

- Aelod staff y Brifysgol;
- Yn annibynnol ar raglen astudio'r ymgeisydd;
- Yn meddu ar ddealltwriaeth glir o reoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol, ac yn cydymffurfio'n llawn â hwy;
- Fel arfer, gyda phrofiad o oruchwylio ac arholi graddau ymchwil ôl-raddedig;
- Wedi cael hyfforddiant priodol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

8.3.7 Mae'r arholwyr yn gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniadau academaidd am yr ymgeisydd, er y gall y Cadeirydd gynghori o ran y deilliannau arholi sydd ar gael iddynt o fewn rheoliadau'r Brifysgol.

Arholwyr allanol

8.3.8 Bydd Arholwr Allanol:

- Yn ymchwil weithredol gyda gwybodaeth ac arbenigedd arbenigol ym maes ymchwil yr ymgeisydd;
- Yn annibynnol ar y prosiect, y Brifysgol ac unrhyw Sefydliad Cydweithredol sy'n gysylltiedig â'r prosiect;
- Ddim yn oruchwyliwr ymgeisydd arall yn y Brifysgol, yn gydweithiwr agos neu ddiweddar i un o'r goruchwylwyr, neu'n arholwr allanol ar gwrs a addysgir yn y Brifysgol;
- Yn gymwys i weithio yn y DU a darparu tystiolaeth o hyn yn unol â gofynion fisâu a mewnfudo'r DU (UKVI);
- Yn gallu a chael eich gweld yn gallu gwneud asesiad annibynnol o waith yr ymgeisydd.

8.3.9 Ni fydd cyn-aelodau staff, a chyn-ymgeiswyr, yn gweithredu fel arholwyr allanol tan bum mlynedd ar ôl i'w cyflogaeth ddod i ben, neu bum mlynedd ar ôl iddynt orffen.

8.3.10 Ni fydd y RDC fel arfer yn penodi'r un arholwr allanol fwy na dwywaith o fewn pum mlynedd.

Arholwyr mewnol

8.3.11 Bydd Arholwr Mewnol:

- Yn aelod o staff y Brifysgol neu'r Sefydliad Cydweithredol, neu
- Yn aelod o Emerati Professoriat y Brifysgol, neu Ysgolhaig Ymweliadol i'r Brifysgol;
- Yn ymchwil weithredol gyda gwybodaeth berthnasol am y pwnc;
- Yn annibynnol ar brosiect yr ymgeisydd.

Arholwyr ar gyfer staff

8.3.12 Os yw'r ymgeisydd: (1) yn aelod staff academaidd, neu (2) yn aelod staff proffesiynol yn y gyfadran lle mae'n astudio ar gyfer ei radd ymchwil ôl-raddedig, bydd angen dau arholwr allanol.

Mae'r eithriad canlynol yn berthnasol:

- Ymgeiswyr, gan gynnwys cynorthwywyr ymchwil a chymrodyr ymchwil, sydd wedi cymryd rhan mewn gwaith darlithio a delir fesul awr yn unig ochr yn ochr â'u gradd ymchwil ôl-raddedig.

Efallai y bydd angen ail-gyfansoddi Panel Arholi os yw statws cyflogaeth ymgeisydd gyda'r Brifysgol yn newid rhwng adeg penodi'r arholwyr ac adeg yr arholiad.

Ystyriaethau eraill

8.3.13 Rhaid sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad personol rhwng arholwr a naill ai ymgeisydd neu ei dîm goruchwylio, a rhaid datgan unrhyw berthynas arall i RDC cyn penodi.

8.3.14 Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ni fydd y RDC fel arfer yn penodi arholwr sy'n arbenigwr sydd eisoes wedi asesu trosglwyddo'r ymgeisydd o MPhil i PhD.

8.3.15 Ni all ymgeisydd gradd ymchwil ôl-raddedig, p'un a yw wedi'i gofrestru yn y Brifysgol neu yn rhywle arall, fod yn arholwr.

8.4 Yr Arholiad

Arholi'r traethawd ymchwil

8.4.1 Bydd pob arholwr yn darllen ac yn arholi'r traethawd ymchwil ac yn cwblhau adroddiad rhagarweiniol annibynnol. Bydd yr adroddiad yn: (1) cadarnhau a yw'r traethawd ymchwil yn bodloni gofynion y dyfarniad dros dro a (2) lle bo'n bosibl, yn gwneud argymhelliad dros dro priodol yn ddarostyngedig i berfformiad yr ymgeisydd yn yr arholiad viva voce. Rhaid cyflwyno adroddiadau rhagarweiniol annibynnol i Ysgrifennydd y RDC cyn y viva a, lle bo modd, o leiaf 10 diwrnod ymlaen llaw.

8.4.2 Lle mae'r arholwyr yn cytuno bod y traethawd ymchwil mor anfoddhaol fel na fyddai unrhyw ddiben defnyddiol symud ymlaen i arholiad viva voce, a lle bo gan yr ymgeisydd ddigon o amser ar ôl o fewn ei gyfnod cofrestru, gall yr arholwyr argymell bod y RDC yn gohirio'r arholiad ac yn dychwelyd y traethawd ymchwil ar gyfer gwaith pellach. Mewn achosion o'r fath, bydd yr arholwyr yn

darparu arweiniad ysgrifenedig i'r ymgeisydd ynglŷn â'r diffygion yn y traethawd ymchwil.

8.4.3 Ni fydd ymgeisydd yn methu'n llwyr heb gynnal arholiad viva voce.

Arholiad viva voce

8.4.4 Ni fydd ymgeisydd yn cymryd unrhyw ran yn nhrefniant eu harholiad viva voce, ac ni ddylent drafod eu traethawd ymchwil gyda'u harholwyr penodedig cyn eu harholiad viva.

8.4.5 Bydd pob archwiliad viva voce fel arfer yn cael ei gynnal cyn pen chwe mis o ddyddiad cyflwyno'r traethawd ymchwil a gellir ei gynnal o bell trwy ddulliau electronig neu wyneb yn wyneb 'ar y campws'. a) Pan fydd ymgeisydd yn dewis i'w viva gael ei gynnal o bell, mae'n ildio'i hawl i apelio yn erbyn canlyniad yr arholiad ar sail defnyddio'r cyfrwng electronig yn unig neu ganlyniadau sy'n deillio o'i ddefnydd. Bydd yr holl gyfranogwyr yn mynychu'r arholiad trwy ddull electronig cymeradwy a bydd unrhyw gymorth technegol angenrheidiol a nodwyd ymlaen llaw ar gael. Dylai un o oruchwylwyr yr ymgeisydd, neu aelod priodol arall o staff academaidd, fod yn bresennol ar ddechrau'r viva i wirio hunaniaeth yr ymgeisydd. b) Pan fydd ymgeisydd yn dewis cynnal ei viva 'ar y campws' gwahoddir yr holl gyfranogwyr i fynychu yn bersonol. Mewn amgylchiadau eithriadol, a chyda chytundeb yr holl bartïon, caiff arholwr fynychu trwy ddulliau electronig.

8.4.6 Gall Cyfarwyddwr Astudiaethau a / neu Oruchwyliwr yr ymgeisydd fynychu'r arholiad viva voce yn ei gyfanrwydd, os yw'r ymgeisydd yn dymuno iddo wneud hynny, ond rhaid iddo beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth oni bai bod arholwyr yn gofyn iddynt roi eglurhad ar fater penodol.

8.4.7 Gall arholwyr hysbysu'r ymgeisydd o'u hargymhelliad i RDC ynghylch canlyniad yr arholiad. Bydd y RDC yn gwneud penderfyniad ar adroddiadau ac argymhelliad/argymhellion yr arholwyr mewn perthynas â'r ymgeisydd. Bwrdd Academaidd y Brifysgol sydd â'r pŵer i roi'r radd.

8.4.8 Ar gais yr arholwyr, gall y RDC gymeradwyo arholiad ychwanegol fel rhan o'r asesiad cyffredinol. Lle bo'n bosibl, bydd hyn yn digwydd o fewn wyth wythnos i arholiad viva voce.

Canlyniadau'r arholiad

8.4.9 Ar ôl cwblhau'r arholiad, mae'r argymhellion canlynol ar gael i arholwyr:

A. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni meini prawf y dyfarniad y mae wedi'i gofrestru ar ei gyfer.

   Gall arholwyr argymell dyfarnu gradd i'r ymgeisydd:

   1. Heb fod angen cywiriadau na diwygiadau
   2. Yn amodol ar fân ddiwygiadau/diwygiadau mawr a nodwyd gan yr arholwyr.

B. Nid yw'r ymgeisydd ar hyn o bryd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad y mae wedi'i gofrestru ar ei gyfer.
   Mae'r cyflwyniad yn dangos diffygion sylweddol o ran cynnwys a/neu gyflwyniad mewn meysydd a nodwyd gan yr arholwyr:

   1. Caniateir i'r ymgeisydd adolygu ac ailgyflwyno ar gyfer y dyfarniad a chael ei ailarholi.
   2. Cynigir dyfarniad is/dyfarniad is yn amodol ar fân ddiwygiadau/diwygiadau mawr a nodir gan yr arholwyr i'r ymgeisydd.
   3. Caniateir i'r ymgeisydd adolygu ac ailgyflwyno ar gyfer dyfarniad is a chael ei ailarholi.

C. Gradd heb ei ddyfarnu.
   Ni ddyfernir y radd i'r ymgeisydd ac ni chaniateir ei ailarholi.

8.4.10 Yn dilyn arholiad viva voce, bydd arholwyr yn cyflwyno adroddiad ac argymhelliad ar y cyd i Ysgrifennydd y RDC. Dylai'r adroddiadau rhagarweiniol ar y traethawd ymchwil ac argymhelliad ar y cyd yr arholwyr, o'u cymryd gyda'i gilydd, ddarparu sylwadau manwl digonol ar gwmpas ac ansawdd y gwaith i alluogi RDC i sicrhau bod y canlyniad a ddewiswyd yn gywir.

8.4.11 Lle mae'r arholwyr yn argymell canlyniad 'dyfarnu yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau' bydd hyn fel arfer yn golygu ailgyflwyno neu ailstrwythuro testun presennol yn unig ac ni fydd fel arfer yn cynnwys gwaith newydd. Disgwylir i fân ddiwygiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o dri mis ar y mwyaf i fodlonrwydd yr arholwr/arholwyr mewnol a/neu allanol.

8.4.12 Lle mae'r arholwyr yn argymell canlyniad 'dyfarnu yn amodol ar ddiwygiadau mawr', tra bydd yr ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad, efallai y byddai angen gwaith newydd er mwyn i'r gosodiad adlewyrchu ansawdd yr ymchwil a wnaed. Gall hyn gynnwys mwy o ymchwil newydd ychwanegol a

dadansoddi/ailysgrifennu darnau o destun. Disgwylir i welliannau mawr gael eu cwblhau o fewn cyfnod o chwe mis ar y mwyaf i fodlonrwydd yr arholwr/arholwyr mewnol a/neu allanol.

8.4.13 Lle nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad ar hyn o bryd ond gyda gwaith newydd sylweddol ac ail-ysgrifennu deunydd mae'r arholwyr yn cytuno bod gan yr ymgeisydd y potensial i wneud hynny, gall yr arholwyr ganiatáu i'r ymgeisydd gael cyfle i ailgyflwyno a chael ei ailarholi. Gall ailarholi fod ar gyfer yr un dyfarniad neu ddyfarniad is ac fe'i cynhelir gan yr holl arholwyr. Bydd angen ailgyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn cyfnod uchafswm o flwyddyn o ddyddiad yr arholiad cyntaf.

8.4.14 Lle bo angen gwneud diwygiadau neu gywiriadau i draethawd ymchwil ymgeisydd yn unol â rheoliad 8.4.11 a 8.4.12, bydd Arholwyr yn nodi'n ysgrifenedig i'r ymgeisydd pa ddiwygiadau neu gywiriadau sydd eu hangen.

8.4.15 Pan fo ymgeisydd naill ai; heb ei ddyfarnu, yn ôl rheoliad 8.4.9C, neu y caniateir iddo ailgyflwyno a chael ei arholi, yn unol â rheoliad 8.4.13, bydd arholwyr yn paratoi datganiad ar y cyd o ddiffygion y traethawd ymchwil a'r rheswm dros eu hargymhelliad. Yn achos 8.4.13, bydd y datganiad hwn hefyd yn darparu canllawiau ysgrifenedig i'r ymgeisydd mewn perthynas â'r ailgyflwyno.

Lle na all Arholwyr gyrraedd consensws

8.4.16 Lle nad yw Arholwyr yn dod i gytundeb, byddant yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar wahân i Ysgrifennydd y RDC o fewn 10 niwrnod i arholiad viva voce.

8.4.17 Lle nad yw argymhellion terfynol yr Arholwyr yn unfrydol, gall y RDC:

1. Derbyn argymhelliad y mwyafrif (ar yr amod bod y mwyafrif yn cynnwys o leiaf un arholwr allanol); neu
2. Derbyn argymhelliad yr arholwr allanol (lle nad oes ond un arholwr allanol); neu
3. Ei gwneud yn ofynnol bod arholwr allanol ychwanegol yn cael ei benodi.

8.4.18 Bydd arholwr allanol ychwanegol a benodir, yn unol â rheoliad 8.4.17, yn paratoi adroddiad rhagarweiniol annibynnol ar y traethawd ymchwil ac, os oes angen, yn cynnal arholiad arall viva voce. Ni fyddant yn ymwybodol o argymhellion yr arholwyr eraill cyn arholi'r gwaith. Bydd y RDC yn ystyried adroddiadau ac argymhellion pob arholwr ac yn gwneud penderfyniad terfynol ar ganlyniad yr arholiad.

Ailgyflwyno ac ailarholi

8.4.19 Bydd y RDC yn caniatáu i ymgeisydd ailgyflwyno a chael ei ailarholi am ddyfarniad unwaith yn unig ar ôl cael canlyniad categori B1 neu B3 yn yr arholiad cyntaf. Bydd angen ailgyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn cyfnod o flwyddyn o ddyddiad yr arholiad cyntaf. Bydd arholwyr yn paratoi canllawiau ysgrifenedig ar gyfer yr ymgeisydd mewn perthynas â'r ailgyflwyniad, yn unol â rheoliad 8.4.15.

8.4.20 Gall y RDC benodi arholwr allanol ychwanegol ar gyfer yr ailarholiad.

8.4.21 Bydd ailarholi yn cynnwys arholiad viva voce oni bai, fod y viva voce gyntaf yn foddhaol ac, ar ôl arholi'r traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd, bod yr arholwyr yn cytuno bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad.

8.4.22 Ym mhob ffordd arall, cynhelir yr ailarholiad yn yr un modd â'r arholiad cyntaf.

8.4.23 Ar ôl cwblhau'r ailarholi, gall arholwyr argymell canlyniad o'r opsiynau sydd ar gael yn unol â rheoliad 8.4.9 **ac eithrio** bod opsiynau B1 a B3 (ailgyflwyno ar gyfer yr un dyfarniad neu ddyfarniad is) ar gael mwyach.

Camymddwyn academaidd tybiedig yng nghyfnod yr arholiad

8.4.24 Un o ddyletswyddau'r Panel Arholi yw penderfynu mai'r ymgeisydd ei hun sy'n gyfrifol am y gwaith a gyflwynir. Os bydd gan yr arholwyr unrhyw amheuon o gamymddwyn academaidd, gellir dadansoddi'r gwaith a gyflwynir gan ddefnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad. Fel arall, gall arholwyr geisio archwilio unrhyw bryderon yn ystod arholiad viva voce.

8.4.25 Lle bo'r Panel Arholi'n nodi bod trosedd wedi'i chyflawni, rhaid iddynt gyfeirio at *Reoliadau Cywirdeb Academaidd* y Brifysgol a'r *Tariff Camymddwyn Academaidd ar gyfer Graddau Ymchwil*. Bydd y Panel Arholi yn gwneud argymhelliad i RDC ar ôl ystyried yr ystod o ganlyniadau sydd ar gael.

Apelio yn erbyn penderfyniad y RDC ar ganlyniad yr arholiad

8.4.26 Gall ymgeisydd, yn dilyn naill ai'r arholiad cyntaf neu'r ailarholi, apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Graddau Ymchwil ond dim ond o dan feini prawf penodol, yn unol â *Rheoliadau a*

Gweithdrefnau Apelau Academaidd y Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil.

8.5 Dyfarniadau ar ôl marwolaeth

8.5.1 Gall y RDC ddyfarnu gradd ymchwil ar ôl marwolaeth pan fydd traethawd ymchwil wedi'i gwblhau a'i fod yn barod i'w gyflwyno a'i arholi. Bydd y RDC yn ceisio tystiolaeth briodol y byddai'r ymgeisydd wedi llwyddo yn yr arholiad viva voce pe bai wedi cael ei arholi.